MENTER IAITH MAELOR

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

a gynhaliwyd ym Mhlas Pentwyn, Coedpoeth,

ar Ddydd Mercher, 16eg o Fai, 2012 am 7.00 yh

1. **Presennol**

Trefor Jones Morris, David James, Gwawr Cordiner, Alun Emanuel, Gwenan Emanuel, Bronwen Wright, Gareth Williams, William Gwynn Williams, Ann Hughes, Darren Morris, Marian Antrobus, Bethan Jennings, Carol Edwards, Meilir Edwards, Ifor Williams, Mairwen Jones, Elwyn Williams, John Teifi Morris, Andrew Cordiner, Olwen Roberts, Menna Parry, Marian Jones, Gwawr Murphy, Osian Edwards, Lleucu Siôn.

Ymddiheuriadau ,

Bethan Williams, Siôn Aled, Glyn Jones, Ieu Roberts, Gwenan Henstock.

2. **Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

3. **Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2010-11**

Cynigiodd Gwenan Emanuel eu bod yn gywir ac eiliodd Alun Emanuel.

4. **Materion yn Codi**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

5. **Derbyn adroddiad y Rheolwr**

Cyflwynodd Gwawr Cordiner adroddiad o ddigwyddiadau'r Fenter dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar y 3 maes gwaith penodol - Teuluoedd, Pobl Ifanc a'r Gymuned. Cydnabuwyd y gwaith da sydd yn mynd ymlaen gan bartneriaid y fenter ar y cyd, yn benodol; Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Cyngor Sir Bwrdeistref Wrecsam, Cymraeg i Oedolion a Thwf.

Rhai o uchel bwyntiau'r flwyddyn oedd:

- Gŵyl Y Ffin ar gae Llwyn Isaf
- Prosiect newydd i ddarparu grant Dwyieithrwydd Mewn Busnes i'r ardal wledig
- Cynllun Fframwaith Cymdogaeth Ceiriog gyda rhaglen weithredu i'r dyfodol.

Llongyfarchodd Sara Mair ar enedigaeth merch fach, a dymunodd yn dda i Gwawr Murphy ar ei chyfnod mamolaeth.

Llwyddwyd i ddenu arian grant ar gyfer cynllun newydd i gychwyn Mehefin 2012 ar draws 4 sir y Gogledd Ddwyrain i hyrwyddo iaith a threftadaeth Gymreig yn yr ardaloedd gwledig.

Codwyd cwestiwn o'r llawr a fydd y Fenter yn canolbwyntio eu hymdrechion ar Wersyllt yn y dyfodol (oherwydd y cynlluniau am ysgol Gymraeg) gan annog y rhieni i gefnogi? Nododd GC mewn ymateb fod gwaith eisoes wedi digwydd yng Ngwersyll ac eilio Marian Antrobus bod y Mudiad a'r Fenter wedi cydweithio ar waith arbennig yn yr ardal.

Cododd John Morris bryder ynglŷn ag arwyddion uniaith Saesneg sydd yn dref Wrecsam, ymatebwyd mai mater i'r Bwrdd yr Iaith gynt oedd hyn, ac y bydd y comisiynydd Iaith yn delio gyda chwynion cyffelyb o hyn ymlaen. Mae'r comisiynydd Iaith yn ymweld Plas Pentwyn ar y 24ain o Fehefin i gynnal cyfarfod cyhoeddus i unrhyw un â diddordeb.

Lleisiodd Elwyn Williams ei bryder bod Jac yr Undeb ym mhob man i ddathlu'r Jiwbilî. Nodwyd mewn ymateb ein bod yn dal i aros am adroddiad ymchwil cwmni Sbectrwm i wneud Wrecsam yn Dref Ddwyieithog, ac y gobeithio y bydd cyllid yn dod ynghlwm gyda'r argymhellion i Gymreigio'r dref.

Cyflwynodd Osian Edwards drosolwg o gynllun grant Dwyieithrwydd Mewn Busnes. Datganwyd pryder gan rhai nad yw'r grant i gael yng nghanol dref Wrecsam ond nododd eraill fod y grant i hun yn gam i'r cyfeiriad cywir. Cynigiodd William Williams y dylid edrych ar adroddiad gan YouGov a Phrifysgol Aberystwyth ar ddadansoddiad o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a fydd o fudd i'r cynllun DMB. Bydd Osian Edwards yn edrych arno.

Nodwyd fod gwaith da yn mynd ymlaen yn y dref gyda dysgwyr, a gofynnwyd a yw'r fenter yn cefnogi 7* ar gyfer y gwaith yma. Nodwyd fod y Fenter yn gefnogol iawn i'r gwaith mae 7* yn ei gynnal, ond nid yw'n gallu cyfrannu'n ariannol i unrhyw ddigwyddiadau dysgwyr, gan fod Canolfannau Cymraeg i Oedolion yn derbyn cyllid penodol i wneud hyn eisoes.

6. Derbyn cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2011

Cyflwynodd David James cyfrifon y Fenter am y flwyddyn 10/11, gan nodi fod yr incwm wedi cynyddu, ac nad oedd y gwariant yn uwch na'r incwm am y flwyddyn. Mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella o'r flwyddyn cynt, gyda'r flwyddyn yn gorffen â £6,000 yn y banc.

Holwyd yng nghylch y £3,870 rent a hurio, a fyddai'r Fenter yn cysidro symud i'r 7*. Nodwyd yn ddibynnol ar addasrwydd yr adeilad a'r telerau y bydd y Fenter yn ystyried symud.

Diolchwyd i David am ei holl waith fel trysorydd.

7. Ethol y Bwrdd Cyfarwyddwyr

Ers blwyddyn ddiwethaf mae dau Aelod i'r Bwrdd wedi eu derbyn- Sion Aled Owen a William Gwynn Williams, gofynnwyd i'r llawr am enwebiadau gan yr aelodau i fod yn gyfarwyddwyr. Nid chafwyd enwebiadau, ond cynigwyd cysylltu â Chlwb y Rotary, Trefnu Cymunedol Cymru, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Iâl ac eraill i ddod yn aelodau o'r Femter.

Gofynnwyd i bawb fod yn ymwybodol o'r cyfle i ddod yn Gyfarwyddwr, ac i gysylltu â'r swyddfa pe bai ganddynt fwy o ddiddordeb.

8. Ethol Cadeirydd o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

Penderfynwyd mai mater i'r Bwrdd Rheoli nid i'r Cyfarfod Blynyddol yw hyn.

9. Unrhyw Fater arall

Diolch i Trefor Jones Morris am ei waith fel cadeirydd, a chydnabuwyd y gefnogaeth dda a dderbyniwyd gan Fwrdd yr iaith Gymraeg ar hyd y blynyddoedd.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf

Mis Mehefin/Gorffennaf 2013

Anerchiad gan Alun Jones Cwmni Menter a Busnes

Derbyniwyd anerchiad gan Alun Jones o Fenter a Busnes.